

# T. LLEW JONES

Yn y dechreuad yr oedd y GWRANDO. Gwrando ar Mam yn adrodd stori-cyn-cysgu am hen Flaidd Cwmcerrig. Gwrando ar Mam-gu'n adrodd storïau am ysbrydion a chanhwyllau corff a thoiliod a Thylwyth Teg. Gwrando ar hen fechgyn gyda'r nos yn adrodd storïau 'celwydd-golau'.


Yna mynd i ysgol Capel Mair ac yno – pan o'n i tua saith oed – clywed y prifathro, Mr Davies, yn darllen stori bert am fabi bach yn cael ei adael mewn hen dollborth unig gan ddyn diert h a ddiplannodd i'r nos ar gefn ei geffyl. Wyddwn i ddim beth oedd teitl y llyfr hwnnw, ond fe benderfynais i o'r pryd hynny ymlaen 'mod i'n mynd i ddarllen llyfrau. A dyna wnes i wedyn –darllen a darllen a darllen.



Yna fe ddaeth yr awydd i sgrifennu storïau fy hunan. Sgrifennu oedd y peth gorau fedrwn i 'i neud yn yr ysgol. Ond aeth blynyddoedd heibio cyn i mi weld cyhoeddi fy nofel gyntaf, *Trysor Plasywernen*, ym 1958. Dros gyfnod o ugain mlynedd, sgrifennais rhyw 30 o lyfrau o bob math i blant.

Mae'r profiadau a gefais a'r llyfrau a ddarllenais yn blentyn bach, wedi cael dylanwad ar y llyfrau a sgrifennais ar ôl tyfu'n ddyn. Deuai carafannau sipswyn i aros ar ddarn o dir comin ger tŷ Mam-gu ac fe fŷm i'n chwarae gyda phlant y sipswyn lawer gwaith. Mae fy nofel, *Tân ar y Comin*, yn sôn am sipswyn ac mae'r prif gymeriad, sef Tim Boswel, yn rhywun y bŷm i'n chwarae gydag ef. Fe wnaeth darllen *Treasure Island* yn blentyn i mi hoffi storïau am y môr. Wedyn ar ôl tyfu'n ddyn, symudais i fyw i lan y môr ger Llangrannog. Dyna sut y daeth *Trysor y Môrladron*, *Barti Ddu* a *Dirgelwch yr Ogof* i fod.

Yr hyn sy'n fy gwneud yn hapus bob amser yw derbyn llythyrau oddi wrth blant yn dweud iddynt fwynhau darllen un o'm llyfrau.

Rwy'n sgrifennu nofelau a phenillion i blant am fy mod i'n hoffi plant yn fwy na phobl mewn oed, ac yn eu deall yn well hefyd!





## T Llew Jones

Dyddiad Geni / Hydref 11 1915

### Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?

Bwlchmelyn, Pentrecwrt, Llandysul.

### Ble cawsoch chi eich addysg?

Ysgol Gynradd Capel Mair (bellach wedi cau), Ysgol Uwchradd Llandysul, Coleg Hyfforddi Caerdydd.

### Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?

Hoffi darllen a criced ac yn casau Mathemateg a Chemeg.

### Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?

Awdur.

### Beth oedd eich hoff lyfr yn blentyn?

*Oliver Twist*, *Treasure Island*.

### Beth yw eich prif ddiddordebau?

Darllen, criced a gwyddbwyll.

### Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?

Cael llythyron oddi wrth blant sy wedi cael blas ar ddarllen fy storiâu.

### Beth sy'n eich gwylltio chi?

Cymry yn esgeuluso'r Gymraeg.

### Pryd ddechreusoch chi feddwl am ysgrifennu?

Tua deg oed.

### Pa un oedd eich llyfr cyntaf?

*Trysor Plasywernen*.

### Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd i ysgrifennu?

Weithiau – weithiau'n anodd.



### O ble rydych chi'n cael eich syniadau?

Mae gen i ffynnon – ffynnon y dychymyg (sy wedi sychu erbyn hyn!)

### Oes ganddoch chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?

Darllen a darllen a darllen...

### Oes rhai o'ch cymeriadau wedi eu seilio arnoch chi?

Nag oes.

### Pa un o'ch llyfrau chi yw eich ffefryn?

Rwy'n eu hoffi nhw i gyd!

### Pa un yw eich hoff gymeriad?

Rwy'n ffrind i bob un.

### Oes unrhyw beth yr hoffech chi ei newid amdanoch eich hunan?

Llawer iawn.

### Pa raglenni teledu yw eich ffefrynnau?

Does gen i'r un.

### Beth yw eich hoff fwyd?

Caws a ....., neu ..... a chaws, neu caws a.....

## Gwobrau

- 1976 Gwobr Tir na n-Og am *Tan ar y Comin*
- 1990 Gwobr Tir na n-Og am *Lleud yn Olau*
- 1991 Tlws Mary Vaughan Jones am waith arbennig ym myd llyfrau plant.

## Llyfrau T Llew Jones mewn print

Anturiaethau Twm Siôn Cati:

- Dial o'r Diwedd 0863834213 £5.99
- Y Ffordd Beryglus 1859020976 £5.95
- Ymysg Lladron 0863834264 £4.95
- Barti Ddu 1843233177 £5.99
- Cri'r Dylluan 0850882443 £2.95
- Cyfrinach y Lludw 1859020828 £3.50
- Dirgelwch yr Ogof 0850884179 £5.95
- Lleud yn Olau 0863835651 (llyfr clawr caled) £12.95
- Lleud yn Olau 095460251X (CD llafar) £13.99
- Modrwy Aur y Bwda a Storiâu Eraill 1859025617 £2.50
- Ofnadwy Nos 0850881064 £3.95
- Penillion y Plant 0863836887 £6.75
- Storiâu Cwm-Pen-Llo 0863817505 £4.25
- Tân ar y Comin 1859020399 £5.95
- Trysor Plasywernen 071540721X £4.95
- Un Noson Dywyll 1859021034 £5.95
- Y Gelyn ar y Trên (addas. T. Llew Jones) 1859020348 £4.99
- Y Môr yn eu Gwaed 1859025668 £2.50

